# Diogelu cymunedau Cymru rhag tomenni glo nas defnyddir

**Rydyn ni'n gwybod bod rhai pobl yn poeni os oes tomen lo nas defnyddir ar bwys eu cymuned. Mae Llywodraeth Cymru, eich cyngor lleol a sefydliadau eraill yn gweithio gyda'i gilydd i'ch cadw'n ddiogel.**



## Yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn awr

- Archwilio a monitro pob tomen lo nas defnyddir yng Nghymru yn rheolaidd.
- Ariannu cynghorau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith i sicrhau bod tomenni'n fwy diogel – gan gynnwys tomenni preifat.
- Cyhoeddi mapiau sy'n dangos ble mae tomenni a pha mor aml maen nhw'n cael eu harchwilio. Mae'r rhan fwyaf o domenni nas defnyddir yng nghymoedd de Cymru, ond effeithir ar rannau eraill o'r wlad hefyd.

Perchnogion y tomenni sy'n parhau i fod yn gyfrifol amdanyn nhw, ond mae Llywodraeth Cymru yn helpu.

Rydyn ni eisoes wedi buddsoddi **£100 miliwn** i ddiogelu tomenni glo ers 2020, ac mae **£120 miliwn** arall yn yr arfaeth.

Bydd hyn yn cefnogi'r rhai sy'n byw yng nghysgod y tomenni, ac yn dod â chyfleoedd am swyddi a'r potensial i gymunedau ddefnyddio'r safleoedd at ddibenion hamdden.

## Cyfraith newydd i wella diogelwch

Bydd deddf newydd gan Lywodraeth Cymru yn mynd hyd yn oed ymhellach i amddiffyn cymunedau Cymru am genedlaethau i ddod.

Bydd y gyfraith hon yn creu sefydliad newydd o'r enw Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru. O fis Ebrill 2027 ymlaen, bydd yr Awdurdod hwn yn monitro pob tomen yn rheolaidd, yn creu cynlluniau diogelwch ar gyfer safleoedd risg uwch ac yn rheoli argyfyngau i gadw cymunedau'n ddiogel.

## Angen help neu wybodaeth?

Os ydych yn poeni am domen yn eich ardal chi, rhowch wybod i'r Awdurdod Adfer Mwyngloddio ar:
**0800 021 9230** neu e-bostiwch:
**tips@MiningRemediation.gov.uk**

I gael rhagor o wybodaeth:
**www.llyw.cymru/diogelwch-tomenni-glo**

Neu ysgrifennwch at:
**Y Tîm Diogelwch Tomenni Glo,
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd, CF10 3NQ**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52888.